Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad yn dilyn monitro

## Lefel y gweithgarwch dilynol: Mesurau Arbennig

**Ysgol Pen Y Garth**
**1 Heol Tircoch**
**Penarth**
**CF64 2QN**

**Dyddiad yr ymweliad: Hydref 2024**

**gan**

**Estyn, Prif Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Canlyniad yr ymweliad

Bernir bod Ysgol Pen-y-Garth wedi gwneud cynnydd digonol mewn perthynas â’r argymhellion yn dilyn yr arolygiad craidd diweddaraf.

O ganlyniad, mae Prif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru yn tynnu’r ysgol o’r rhestr ysgolion y mae angen mesurau arbennig arnynt.

## Cynnydd ers yr arolygiad diwethaf

### A1. Cryfhau’r arweinyddiaeth er mwyn gweithredu’n fwy strategol

Ers yr arolygiad craidd, mae’r pennaeth wedi ymgymryd â’i rôl yn hynod effeithiol gan gryfhau’r arweinyddiaeth strategol. Mae wedi gweithio’n agos gyda’r holl staff, disgyblion, llywodraethwyr a’r rhieni i greu gweledigaeth gytûn. Mae ganddi ddisgwyliadau uchel ohoni ei hun a’r holl staff. Mae’r pennaeth wedi sicrhau bod gan uwch arweinwyr rolau a chyfrifoldebau clir. Mae llywodraethwyr yn cefnogi ac yn herio arweinwyr yn briodol.

Mae arweinwyr wedi sefydlu cyfundrefn rheoli perfformiad sy’n ymateb i’r gofynion statudol. Maent wedi creu diwylliant lle mae staff yn cydweithio’n effeithiol fel cymuned ddysgu broffesiynol er mwyn ymgorffori arwyddair yr ysgol ‘law yn llaw, llwyddiant a ddaw’. Mae’r ystod o weithdrefnau sicrhau ansawdd a chyflwynir gan arweinwyr yn eu galluogi i gynnig cefnogaeth i staff. O ganlyniad, mae safon yr addysgu a chyflawniad disgyblion ar draws yr ysgol wedi gwella.

Mae gweithdrefnau cyfathrebu a rhannu gwybodaeth yr ysgol wedi cryfhau. Mae hyn yn cynnwys datblygu system fewnol er mwyn sicrhau bod arweinwyr yn delio â chwynion yn amserol. Mae'r holl staff yn elwa o linellau cyfathrebu clir gyda chyfarfodydd rheolaidd yn cael eu cynnal ar lefel ysgol gyfan ac adrannau penodol. Yn dilyn y cyfarfodydd, mae’r uwch dîm yn ymateb yn fwriadus i’r camau gweithredu sydd yn eu tro yn cael effaith cadarnhaol ar weithdrefnau’r ysgol.

### A2. Sicrhau bod gweithdrefnau hunan werthuso a chynllunio ar gyfer gwella yn ddigon trylwyr i fynd i’r afael â’r meysydd ar gyfer gwella

Ers yr arolygiad craidd, mae’r pennaeth wedi sicrhau bod trefniadau cynhwysfawr yn eu lle ar gyfer hunanwerthuso'r ddarpariaeth. Mae’r uwch dîm arwain yn cydweithio’n effeithiol i werthuso’r addysgu trwy ymweliadau i ddosbarthiadau, a gweithgareddau craffu ar lyfrau. O ganlyniad, mae gan arweinwyr adnabyddiaeth gadarn o gryfderau’r ddarpariaeth a’r meysydd i wella. Mae’r arweinwyr yn ymwybodol o’r angen i gryfhau’r ffocws ar werthuso effaith y ddarpariaeth ar fedrau disgyblion.

Mae arweinwyr yn cynnwys aelodau gwahanol o gymuned yr ysgol yn y prosesau hunanwerthuso yn fuddiol. Maent yn canfod barn rhieni am y ddarpariaeth ac yn ymateb trwy gylchlythyr sy'n rhannu'r canlyniadau a bwriadau'r ysgol i fynd i'r afael â'r materion a godwyd. Er enghraifft, maent yn trefnu mwy o gyfleoedd i rieni i weld gwaith eu plant. Mae'r disgyblion hefyd yn cyfrannu'n effeithiol i'r gweithdrefnau hunanwerthuso. Er enghraifft, maent yn cynnig barn ynghylch dull yr ysgol o fagu eu medrau darllen gan gadarnhau pa elfennau maent yn ei fwynhau fwyaf, a pha mor rheolaidd yw'r cyfleoedd i ddarllen ym mhob dosbarth. Yn ogystal, mae llywodraethwyr yn derbyn gwybodaeth reolaidd am gynnydd yr ysgol. Maent yn dechrau ymweld â'r ysgol yn fwy rheolaidd er mwyn dyfnhau eu dealltwriaeth o lwyddiannau a meysydd gwella'r ysgol.

Dros amser, mae arweinwyr wedi llwyddo i wneud a chynnal gwelliannau i'r ddarpariaeth. Maent yn pennu camau gweithredu defnyddiol er mwyn mynd i'r afael â blaenoriaethau presennol yr ysgol. Maent yn cynhyrchu canllawiau clir i'r athrawon er mwyn cefnogi eu dealltwriaeth o'r camau gweithredu hyn. Er enghraifft, maent yn darparu canllaw defnyddiol ar gyfer datblygu medrau darllen disgyblion. Mae arweinwyr wedi sefydlu trefniadau grymus er mwyn gwella presenoldeb a phrydlondeb disgyblion.

## A3. Darparu gweithgareddau sy'n gosod lefel her briodol fel gall bob disgybl gyflawni hyd eithaf eu gallu yn gyson

Mae'r pennaeth ac aelodau'r uwch dîm arwain wedi creu strategaeth glir ar gyfer gwella safonau dysgu ac addysgu ar draws yr ysgol. O fewn cyfarfodydd staff wythnosol, mae ffocws bwriadus ar ddatblygu technegau addysgu. Mae arweinwyr yn cynnal sesiynau hyfforddiant i'r holl staff er mwyn adnabod rhinweddau gwersi effeithiol. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno gwersi ar gyflymder addas, holi pwrpasol a'r defnydd o ystod o dechnegau rheoli dosbarth ac ymddygiad disgyblion. O ganlyniad, mae'r staff wedi datblygu strategaeth addysgu Pen-y-Garth sy'n gosod disgwyliadau clir ar gyfer creu 'diwylliant i ddysgu'. Mae hyn wedi sicrhau cysondeb yn yr addysgu, ac o ganlyniad mae safonau addysgu ar draws yr ysgol bellach yn gyson dda.

Mae gan staff ddisgwyliadau uchel o ran ymddygiad a chyflawniad disgyblion. Maent wedi creu cymuned ofalgar lle mae pwyslais ar barch at bob unigolyn. Maent yn rheoli eu dosbarthiadau yn effeithiol sy'n cael effaith cadarnhaol ar agweddau bron bob disgybl at eu dysgu. Ar draws yr ysgol, mae bron bob disgybl yn ymdawelu'n gyflym lle'n briodol ac yn barod i ymgymryd yn frwd â'u tasgau.

Mae athrawon yn darparu tasgau sydd wedi eu teilwra ar gyfer gallu disgyblion gan sicrhau her briodol i'r rhan fwyaf ohonynt. Defnyddia athrawon amrediad o strategaethau addysgu i ddiwallu anghenion y disgyblion. Mae'r disgyblion yn rhan annatod o'u dysgu, er enghraifft wrth ddewis eu tasgau a thrwy drafod eu gwaith yn frwd. O ganlyniad, mae llawer o ddisgyblion, gan gynnwys y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a'r disgyblion gallu uwch yn gwneud cynnydd cadarn.

Mae egwyddorion dysgu sylfaen wedi eu sefydlu'n gadarn ym mlynyddoedd ieuengaf yr ysgol. Mae'r staff yn darparu profiadau cyffrous a diddorol iddynt trwy weithgareddau a heriau yn y dosbarthiadau a'r ardal allanol. Mae hyn yn hyrwyddo dysgwyr annibynnol hyderus. Ar draws yr ysgol, mae staff yn hyrwyddo defnydd y Gymraeg yn llwyddiannus.

**A4. Darparu gweithgareddau dysgu ysgogol sy'n cefnogi disgyblion hŷn i ddatblygu a chymwhyso eu medrau yn fwriadus dros amser**

Mae staff yn cydweithio yn effeithiol i gynllunio gweithgareddau ysgogol i'r disgyblion gymhwyso eu medrau mewn amrywiaeth o gyd-destunau diddorol. O ganlyniad i hyn, mae agweddau bron bob un o'r disgyblion at eu dysgu yn gadarnhaol. Mae disgyblion yn dangos brwdfrydedd ac yn gweithio'n annibynnol gyda phwrpas a bwrlwm. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi cyflwyno sesiynau 'Dysgu Disglair' wythnosol sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm craidd gydag ystod o weithgareddau diddorol.

Mae arweinwyr wedi datblygu cynlluniau gwaith penodol i sicrhau dilyniant ym medrau llythrennedd y disgyblion. Mae athrawon yn defnyddio'r cynlluniau yn bwrpasol i ddatblygu medrau siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu disgyblion yn fwriadus dros amser. Mae arweinwyr yn cefnogi datblygiad y medrau hyn yn llwyddiannus drwy greu canllawiau addysgu manwl i gefnogi staff. Mae cyfleoedd penodol wedi eu cynllunio i'r disgyblion ysgrifennu mewn ffurfiau gwahanol mewn cyd-destunau diddorol. O ganlyniad, mae medrau llythrennedd llawer o'r disgyblion yn datblygu'n briodol wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Mae staff ac arweinwyr yn olrhain cynnydd y disgyblion yn effeithiol ac yn darparu ymyraethau amserol a phwrpasol.

Mae arweinwyr wedi mireinio'r disgwyliadau o ran addysgu mathemateg. Rhoddir pwyslais amlwg ar sicrhau bod disgyblion yn deall cysyniadau mathemategol yn gadarn cyn cymhwyso eu medrau rhifedd mewn gwaith ar draws y cwricwlwm. Mae staff yn gwneud defnydd priodol o adnoddau gweledol i gefnogi'r addysgu. Ar draws yr ysgol, mae staff yn cynyddu eu hyder wrth ddatblygu medrau digidol disgyblion. Mae rhaglen benodol o hyfforddiant yn ei le i'r staff er mwyn iddynt barhau i ddatblygu ystod gynyddol o fedrau digidol y disgyblion dros amser.

Ers yr arolygiad craidd, mae'r holl staff yn cydweithio'n effeithiol i hybu ethos a diwylliant Cymreig. Mae disgyblion yn dangos dealltwriaeth dda o nifer o chwedlau Cymreig ac yn gweithio gydag artistiaid Cymreig i hybu medrau celf yn effeithiol. Maent yn dangos balchder wrth berfformio mewn sioe gerdd lwyddiannus, wrth gyfansoddi cerddoriaeth gyfoes, ac wrth gystadlu mewn eisteddfodau. O ganlyniad, mae medrau creadigol disgyblion yn datblygu'n llwyddiannus.

**A5. Sicrhau bod adborth gan athrawon ar waith disgyblion yn bwrpasol, a darparu cyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion wella eu gwaith**

Mae arweinwyr wedi darparu hyfforddiant buddiol i'r staff am agweddau gwahanol o asesu. Mae hyn yn cynnwys canllaw defnyddiol ynglŷn â dulliau adborth disgwyliedig yr ysgol. O ganlyniad, mae athrawon yn darparu adborth pwrpasol, a chyfleoedd rheolaidd i ddisgyblion wella eu gwaith. Mae hyn bellach wedi ei wreiddio yng ngweithdrefnau'r dosbarthiadau. Mae adborth athrawon i ddisgyblion yn symud eu dysgu yn ei flaen yn gyson. Er enghraifft, mewn sesiynau adborth pwrpasol, mae athrawon yn arddangos gwaith disgyblion i'w cyfoedion ac yn eu hannog i fyfyrio'n sensitif am y llwyddiannau a chamau nesaf. Gwneir defnydd effeithiol o adnoddau fel byrddau gwyn bach i roi adborth ar y pryd i ddisgyblion mewn sesiynau mathemateg pen bachog. Yn ogystal, yn y rhan fwyaf o wersi mae staff yn darparu adborth llafar bwriadus sy'n galluogi disgyblion i gwblhau tasgau'n llwyddiannus.

Ar draws yr ysgol, mae disgyblion yn rhan annatod a rheolaidd o wella eu gwaith. Maent yn dewis meini prawf llwyddiant ac yn cyfeirio atynt wrth asesu gwaith eu hunain a'u cyfoedion yn effeithiol. Maent yn hyderus wrth drafod eu dysgu a'r hyn sydd angen ei wneud i wella. O ganlyniad, mae cynnydd cadarn i'w weld ym medrau llawer o ddisgyblion. Yn ogystal, mae arweinwyr yn casglu barn disgyblion am brosesau adborth yr ysgol yn achlysurol er mwyn sicrhau bod y gweithdrefnau yn bwrpasol ac yn gwella eu gwaith yn effeithiol.

Mae arweinwyr wedi datblygu canllawiau rannu arfer dda effeithiol am adborth rhwng y staff. O ganlyniad, mae diwylliant cryf yn bodoli o ddatblygiad proffesiynol parhaus a sicrhau gwelliant yn y safonau addysgu a dysgu ar draws yr ysgol.

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**